



Department
for Environment
Food & Rural Affairs



Forestry Commission



Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Scottish Government
Riaghaltas na h-Alba
gov.scot

Eich cyfeiriad yma

Ff: 03459 335577

Cyfeiriadau eich adeilad

helpline@defra.gov.uk

Eich cod post

www.gov.uk/defra

Annwyl Ymgynghorai

Ymgynghoriad ar Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion ar gyfer Prydain a Mesurau Bioddiogelwch Ychwanegol ar gyfer Rhywogaethau Coed Risg Uchel.

1. Fel Pennaeth Gwasanaeth Iechyd Planhigion y DU, ac ar ran Defra, llywodraeth Cymru a llywodraeth yr Alban, ein hasiantaethau a'n partneriaid cyflenwi, ysgrifennaf atoch i'ch gwahodd i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad ar Strategaeth Bioddiogelwch Planhigion ddiwygiedig ar gyfer Prydain. Rydym yn gofyn am eich barn ar y camau nesaf y dylem eu cymryd ar y cyd i wella ein trefn bioddiogelwch planhigion ar gyfer Prydain. Mae'r ymgynghoriad wedi'i anelu at amrywiaeth eang o gynulleidfaoedd gan gynnwys y cyhoedd a'r rheini sy'n gweithio yn y sectorau planhigion. Rydym yn gofyn am eich barn ar yr ystod o fentrau bioddiogelwch, a dulliau gweithredu, yn ogystal â gwybodaeth am ymddygiad bioddiogelwch cyffredinol pobl. Bydd eich ymateb yn helpu i lywio ein dull bioddiogelwch dros y pum mlynedd nesaf ac yn cyfrannu at yr ymrwymadau ar y cyd y byddwn yn eu datblygu gyda'n rhanddeiliaid yn y strategaeth newydd, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn 2022.
2. Rydym hefyd yn ysgrifennu atoch i wahodd eich sylwadau ynghylch mesurau bioddiogelwch ychwanegol sy'n gysylltiedig â risgiau penodol o goed. Bydd eich ymateb yn helpu i lywio'r syniadau polisi ynghylch mesurau bioddiogelwch cyn y ffin, ar y ffin a mewndirol ar gyfer coed risg uchel. Byddwn yn gofyn i ymatebwyr am eu barn ynghylch yr ystod o fesurau bioddiogelwch sydd ar waith ar hyn o bryd a p'un a oes modd cyflwyno mesurau yn y dyfodol i gryfhau ein trefn bioddiogelwch

3. Mae'r dogfennau canlynol ar gael ar wefan GOV.UK:
4. Rydym yn croesawu eich barn a'ch sylwadau ar y cynigion. Os hoffech chi gael copi o'r ymgynghoriad hwn. Cysylltwch â plantbiosecuritystrategy@defra.gov.uk

Ymatebion

5. I gyflwyno eich ymateb i'r ymgynghoriad, llenwch holiadur yr ymgynghoriad a ddarperir drwy'r Gofod Dinasyddion (adnodd ymgynghori ar-lein ydy'r Gofod Dinasyddion). Os ydych chi eisiau copi o'r ymgynghoriad, cysylltwch â ni plantbiosecuritystrategy@defra.gov.uk

Gellir anfon ymatebion neu wybodaeth ychwanegol neu ddogfennau i:
Ymgynghoriad ar Strategaeth Bioddogelwch Planhigion ar gyfer Prydain
Cydlynedd
Ail lawr
Foss House
Kings Pool
1 - 2 Peasholme Green
Caerefrog
YO1 7PX 5

6. Rhaid derbyn ymatebion erbyn 30 Tachwedd 2021.

Cyfrinachedd a diogelu data

Mae Hysbysiad Preifatrwydd Ymgynghoriadau wedi'i lwytho i fyny ochr yn ochr â'r ymgynghoriad hwn.

Mae'r ddogfen ymgynghori hon a'r broses ymgynghori wedi'u cynllunio i lynu wrth yr Egwyddorion Ymgynghori a gyhoeddwyd gan Swyddfa'r Cabinet.

Gofynnir i grwpiau cynrychioladol roi disgrifiad cryno o'r bobl a'r sefydliadau maent yn eu cynrychioli a lle bo'n berthnasol pwy arall maent wedi ymgynghori â nhw i ddod i'w casgliadau pan fyddant yn ymateb.

Gellir cyhoeddi neu ddatgelu'r wybodaeth a ddarperir yn yr ymgynghoriad hwn, yn cynnwys data personol yn unol â'r cyfundrefnau mynediad i wybodaeth sef, yn sylfaenol, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (EIR), Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 (FOIA) a Deddf Diogelu Data 2018 (DPA).

Mae gennym ymrwymadau, yn bennaf o dan yr EIR, FOIA a DPA, i ddatgelu gwybodaeth i dderbynyddion neu'r cyhoedd mewn amgylchiadau penodol.

Os ydych chi am i'r wybodaeth a ddarperir gennych gael ei chadw'n gyfrinachol, sylwch fod yn rhaid i'r Adran, fel awdurdod cyhoeddus, lynu wrth y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth ac felly efallai y bydd yn rhaid datgelu'r holl wybodaeth rydych yn ei darparu, neu ran ohoni.

Oherwydd hyn, byddai'n fuddiol pe gallech esbonio wrthym pam eich bod yn credu bod yr wybodaeth a ddarparwyd gennych yn gyfrinachol.

Os ydym yn derbyn cais i ddatgelu'r wybodaeth, rhoddwn ystyriaeth lawn i'ch esboniad, ond ni allwn addo y gellir cynnal cyfrinachedd 2 dan bob amgylchiad. Ni ystyrir ymwadiad cyfrinachedd awtomatig a gynhrychir gan eich system TG chi, ynndo'i hun, yn un sy'n rhwymo'r Adran.

Cynhelir yr ymgynghoriad hwn yn unol ag "Egwyddorion Ymgynghori" Swyddfa'r Cabinet a gellir gweld y rhain yn:

www.gov.uk/government/publications/consultationprinciplesguidance.

Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwynion ynghylch y broses ymgynghori, anfonwch nhw at:

Cydlynnydd yr Ymgynghoriad

Ail lawr

Foss House

Kings Pool

1 - 2 Peasholme Green

Caerefrog

YO1 7PX 5

Neu anfonwch neges e-bost: consultation.coordinator@defra.gov.uk

Diolch am eich cymorth â'r mater hwn. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau, cysylltwch â ni fel uchod:

Yn gywir,

Yr Athro Nicola Spence

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig